# Y CABINET  DYDD MAWRTH, 17 MEDI 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones, Paul Rowlinson a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6 a 7: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 8: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Evans  (Swyddog Monitro) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 8: Datganodd y Cynghorwyr Dafydd Meurig ac Elin Walker Jones eu bod nhw'n Llywodraethwyr yn Ysgol Friars. Nid oedd y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2023/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24 ac argymhellwyd bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet am ei gymeradwyaeth cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Hydref. Eglurwyd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 yn ystod y flwyddyn 2023/24. Esboniwyd bod yr adroddiad yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor yn 2023/34 a diolchwyd i holl weithwyr y Cyngor am eu gwaith dros y flwyddyn.

Adroddwyd bod y cyfnod diweddar wedi bod yn un anodd iawn i Lywodraeth Leol gyda'r galw yn codi ar sawl maes blaenoriaeth yn ogystal â gorfod ymdopi efo llai o gyllideb. Nodwyd bod dwy ran i'r adroddiad gyda'r rhan gyntaf sef yr adroddiad perfformiad blynyddol yn canolbwyntio ar brosiectau Cynllun y Cyngor a'r gwaith dydd i ddydd. Esboniwyd bod yr ail ran sef yr hunanasesiad o berfformiad y Cyngor yn ofyn statudol newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Eglurwyd bod yr hunanasesiad drafft wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 5ed o Fedi a derbyniwyd sylwadau positif ar y cyfan. Derbyniwyd rhai awgrymiadau i wella'r drefn megis awydd yr Aelodau i gael eu cynnwys yn gynt yn y broses o lunio'r adroddiad. Derbyniwyd sylwadau pellach ynghylch yr effaith mae'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor yn ei gael ar drigolion y Sir a bod angen rhoi mwy o sylw i'r elfen hon.

Nodwyd bod yr adroddiad yn llawn ffigyrau ac ystadegau ond tu ôl i'r ystadegau bod straeon calonogol o brofiadau pobl Gwynedd a'r cymorth a roddwyd iddynt. Cyfeiriwyd at esiampl dan y maes blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus o sut mae gwaith swyddogion yn y maes hwn wedi newid bywydau pobl Gwynedd er gwell. Soniwyd am ddyn lleol oedd yn ddi-waith a digartref a manylwyd ar y gefnogaeth a dderbyniodd gan Waith Gwynedd megis help i sicrhau cyfweliad, cymorth budd-dal a chymorth i brynu dillad addas ar gyfer ei swydd newydd. Diolchwyd i'r tîm Gwaith Gwynedd am y gefnogaeth gan nodi fod yr unigolyn dan sylw bellach mewn swydd llawn amser, efo cartref ac yn teimlo'n sefydlog yn ariannol. Nodwyd bod amryw o enghreifftiau tebyg dan amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth o Gynllun y Cyngor.

Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig cydnabod llwyddiant a diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith. Cydnabuwyd bod taith hir i gyrraedd y nod ym mhob maes blaenoriaeth. Ychwanegodd Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor bod rhywfaint o waith dylunio pellach i'w wneud cyn cyflwyni'r ddogfen yn ffurfiol i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Hydref. Cyfeiriwyd at sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r awgrym i ystyried y trefniadau ymgynghori ar gyfer y rhan hunanasesu. Eglurwyd bod hynny yn rhywbeth sydd wedi derbyn sylw a bydd camau priodol yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau adborth priodol i fwydo mewn i'r hunanasesiadau yn y dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith wrth lunio'r adroddiad a diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio am eu sylwadau adeiladol. Amlygwyd bod y sylw am fesur effaith yn sylw fydd yn cael ei weithredu ond cydnabuwyd ei bod yn anodd gweld effaith mewn blwyddyn.
- Croeswyd y plethu rhwng uchelgais Grŵp Plaid Cymru'r Cyngor i Gynllun y Cyngor i weithredu a bellach i adrodd ar y cynnydd.

- Mynegwyd nad yw'r adroddiad yn rhy faith ac yn rhwydd i bobl Gwynedd ei ddilyn. Croesawyd y dyluniad a'r modd mae'r wybodaeth wedi ei osod.
- Diolchwyd i'r Dirprwy Arweinydd am gydnabod gwaith staff y Cyngor gan nodi y bydd y neges hon o ddiolch yn cael ei phasio i'r staff.
- Tynnwyd sylw at y sefyllfa ariannol ddifrifol sy'n fygythiad i wasanaethau craidd y Cyngor gan amlygu y rhagwelir bwlch ariannol o £14 miliwn ar gyfer flwyddyn nesaf. Ychwanegwyd y gall hyn olygu y bydd angen ail edrych ar Gynllun y Cyngor er mwyn adlewyrchu beth fydd gallu'r Cyngor i gyflawni. Gobeithiwyd y byddai'r rhagolygon ariannol yn gwella fel y gall ymdrechion gael eu rhoi i gyflawni'r uchelgais er lles pobl Gwynedd heb orfod poeni am gynnal gwasanaethau sylfaenol y Cyngor.

## 7. ADRODDIAD ASESIAD PANEL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd cynnwys y Ddogfen Gwmpas Asesiad Perfformiad Panel drafft a'r meysydd sydd wedi eu hadnabod i'r Panel edrych arnynt.
2. Dirprwywyd yr hawl i benderfynu ar aelodaeth o'r Panel gan ddal sylw at gyngor CLlC i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod gofyniad newydd i'r Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i gynnal Asesiad Perfformiad gan Banel unwaith o fewn cylch etholiadol. Eglurwyd y bydd y Panel allanol, annibynnol o'r Cyngor yn edrych ar waith y Cyngor a disgwylir i'r Cyngor baratoi dogfen gwmpasu sy'n adnabod y meysydd y maent yn awyddus i'r Panel fod yn edrych arnynt.

Ychwanegodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor bod cytundeb mis Hydref flwyddyn ddiwethaf i gynnal yr Asesiad Panel flwyddyn yma. Nododd bod y Gwasanaeth yn cydweithio efo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd â thrafodaethau i greu'r ddogfen gwmpasu a bod drafft o'r ddogfen wedi ei chynnwys efo'r adroddiad. Ategwyd bod y gwaith i adnabod aelodau posib ar gyfer y Panel yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Manylwyd y bydd y Panel yn debygol o gynnwys Cadeirydd annibynnol, cymar o'r sector gyhoeddus, breifat neu wirfoddol, Uwch Swyddog Llywodraeth Leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac Uwch Aelod Etholedig o'r tu allan i'r Cyngor.

Eglurwyd y bydd y Panel yn edrych ar waith y Cyngor a disgwylir i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth gefndir ar gyfer y Panel a hefyd yn adnabod y meysydd y mae'r Cyngor yn awyddus i'r Panel fod yn edrych arnynt fel sydd wedi eu nodi ar dudalen 76 o'r adroddiad. Nodwyd bod y meysydd yma wedi eu trafod efo'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio ym mis Mai yn ogystal â'r Tîm Rheoli Corfforaethol a derbyniwyd ei hawgrymiadau. Cadarnhawyd yr amserlen gan nodi y bydd yr asesiad yn debygol o gael ei gynnal diwedd mis Tachwedd.

Amlygodd y Prif Weithredwr bod yr asesiad yn cael ei groesawu a gobeithir y bydd y broses o werth, yn drwyadl ac yn adeiladol yn ogystal â'n rhoi her i'r Cyngor fel bod cyfle i ddysgu a gwella.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd y broses. Gofynnwyd a oes lle i'r Panel adnabod meysydd eraill i edrych arnynt yn ychwanegol i'r meysydd sydd wedi cael ei hawgrymu gan y Cyngor.
- Mewn ymateb eglurwyd bod rhan 3.2 yn yr adroddiad yn nodi'r meysydd penodol fydd y Panel yn edrych arnynt ynghyd a set graidd o gwestiynau fydd yn cael eu gofyn. Amlygwyd bod gwahoddiad i'r Cyngor gyflwyno meysydd ychwanegol ac mai'r rhain sydd wedi eu nodi ar dudalen 76 o'r adroddiad.
- Mynegwyd bod yr egwyddorion arweiniol yn eang eu natur. Ychwanegwyd nad oes cyfyngiad ar ddim a bod gan y Panel hawl i roi mwy o sylw i faes penodol.

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan longyfarch pobl ifanc y Sir ar eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch gan ategu mai un maes o allu person ydi gradd arholiad. Cydnabuwyd gwaith caled pobl ifanc y Sir dros y cyfnod arholiadau yn ogystal â'r athrawon gan ddymuno'n dda i bob un person ifanc yn y Sir ar eu cam nesaf.

Adroddwyd bod y gwaith o ehangu'r ddarpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd bron a'i gwblhau efo 22 o ddarparwyr bellach yn cynnig gofal plant Dechrau'n Deg. Tynnwyd sylw bod polisi mynediad Ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi flwyddyn nesaf ac y bydd disgwyliad i blant Meithrin fod wedi eu toiledu cyn cychwyn.

Mynegwyd balchder bod y gwasanaeth ADYaCh wedi llwyddo i wella amseroedd aros am gwnsela a nodwyd ei bod yn braf gweld y gwaith o addasu dosbarthiadau yn Ysgol Pendalar yn parhau. Ategwyd ei bod yn wych gweld Ysgol Treferthyr wedi agor ei ddrysau dechrau'r mis a soniwyd hefyd am y gwaith cyffrous o foderneiddio adeiladau sy'n digwydd ar draws Ysgolion Bangor gydag amryw yn derbyn sylw.

Tynnwyd sylw at lefelau presenoldeb Ysgolion gan nodi bod angen gwella'r lefelau. Mynegwyd pryder fod y lefelau presenoldeb heb ddychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Cyfeiriwyd hefyd at y cynnydd yn niferoedd y gwaharddiadau penodol a parhaol o ganlyniad i ymddygiad heriol o fewn yr Ysgolion gan nodi bod y maes yma wedi derbyn sylw dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd bod arolwg manwl wedi ei gomisiynu ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023 ar y Gwasanaeth Cynhwysiad a chyflwynwyd argymhellion ar sut i gryfhau'r ddarpariaeth.

Ymfalchïwyd ym mhenodiad Meirion Prys Jones fel ymgynghorydd llawrydd fydd yn cydweithio gyda'r Adran Addysg i ail-edrych ar y Polisi Iaith Addysg ac eglurwyd bod y gwaith o gynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

I gloi cydnabuwyd yr heriau a’r boen a brofwyd yn ystod y flwyddyn yn sgil troseddau Neil Foden a bod meddwl Cyngor yn parhau i fod gyda’r dioddefwyr. Ategwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i gydweithredu’n llawn gyda’r adolygiad annibynnol yn unol â chanllawiau cenedlaethol Adolygiad Ymarfer Plant. Yn ogystal croesawyd bwriad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i gynnal ymchwiliad craffu i’r maes diogelu gan nodi parodrwydd yr Adran Addysg i gydweithio’n llawn gyda’r ymchwiliad.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad gan ymfalchïo bod cymaint o newyddion da wedi ei gynnwys.
- Holwyd pa gymorth sydd ar gael i rieni i doiledu plant cyn mynd i’r Ysgol Feithrin, yn enwedig plant ag anghenion ychwanegol. Gofynnwyd pa mor haearnaidd ydi’r rheol o ystyried y ffaith bod Derwen efo rhestr aros ar gyfer rhai o’u gwasanaethau.
- Mewn ymateb eglurwyd y rhesymau dros y newid i’r polisi sef i osgoi dargyfeirio sylw athrawon a cymhorthyddion dosbarth o weddill y dosbarth tra maent yn treulio amser tu allan i’r dosbarth yn newid clytiau. Ychwanegwyd fel rhan o’r gwaith o edrych ar y maes blynyddoedd cynnar bod y pwyslais yn symud i rieni fod yn toiledu. Pwysleisiwyd na fydd Ysgolion yn troi plant i ffwrdd os nad ydynt wedi ei toiledu, ond yn hytrach bod y disgwyliad yn cael ei gyfleu o hyn allan. Nodwyd y bydd ymdrech hyrwyddo a gall hyfforddiant gael ei ddarparu yn amserol gyda’r bwriad o wneud pethau yn haws i rieni.
- Mynegwyd balchder bod arolwg manwl wedi ei gomisiynu ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad. Holwyd ymhellach ynglŷn â’r polisi yma ac os yw plant sydd efo anghenion niwro-ddatblygiadol yn cael eu cynnwys yn y strategaeth hon. Nodwyd hefyd bod y ffigyrau gwaharddiadau yn bryder.
- Mewn ymateb nodwyd bod y strategaeth hon yn cynnwys ystod lawn o anghenion plant ac yn cynnwys plant ag anghenion niwro-ddatblygiedig. Eglurwyd o ran yr ochr ymddygiadol bod adroddiad wedi ei gomisiynau yn ogystal â Grŵp Prosiect wedi bod yn edrych ar yr elfen yma dros dymor yr Haf ac wedi ymweld â Siroedd eraill er mwyn gweld pa ddarpariaethau sydd ar gael a beth yw’r arferion gorau. Nodwyd ar hyn o bryd fod yr Adran yn modelu'r gefnogaeth byddent yn dymuno ei roi ond cydnabuwyd ei bod yn anodd buddsoddi ymhellach dan yr hinsawdd ariannol bresennol. Nodwyd bod mwy o ffocws wedi ei roi yn y gorffennol ar agweddau fwy emosiynol yn hytrach nag agweddau ymddygiadol a bod her o ran strwythuro’r ddarpariaeth er mwyn gallu rhoi sylw i’r ddwy agwedd.

**9. BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i’r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:50pm

**CADEIRYDD**